OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 56 (Cy. 26)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Ionawr 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Ionawr 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 14A(6)(b) a (7) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2017 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adroddiad asesiad poblogaeth" ("*population assessment report*") yw'r adroddiad y mae'n ofynnol iddo gael ei lunio yn unol â rheoliad 5 o'r rheoliadau asesiadau poblogaeth;

ystyr "Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol" ("*Regional Partnership Board*") yw un o'r byrddau y mae'n ofynnol iddynt gael eu sefydlu yn unol â rheoliadau 2 i 8 o'r rheoliadau trefniadau partneriaeth;

ystyr "Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol perthnasol" ("*relevant Regional Partnership Board*") yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sydd wedi ei sefydlu ar gyfer ardal y corff perthnasol;

mae i "corff perthnasol" ("*relevant body*") yr un ystyr ag yn adran 14A(1) o'r Ddeddf;

ystyr "cynllun ardal" ("*area plan*") yw'r cynllun y mae'n ofynnol i gorff perthnasol ei lunio yn unol ag adran 14A(2) o'r Ddeddf;

ystyr "cynllun ardal ar y cyd" ("*joint area plan*") yw cynllun ardal sydd wedi ei lunio gan gorff perthnasol ar y cyd â chorff perthnasol arall yn unol â'r pwerau yn adran 14A(4) neu (5) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

(**1**) 2014 dccc 4. Mewnosodwyd adran 14A gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), Atodlen 4, paragraff 34.

ystyr "y rheoliadau asesiadau poblogaeth" ("*the population assessments regulations*") yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015(**2**);

ystyr "y rheoliadau trefniadau partneriaeth" ("*the partnership arrangements regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**3**).

### Cyhoeddi cynlluniau ardal

**2.**—(1) Rhaid cyhoeddi'r cynllun ardal cyntaf (neu, os yw'n gymwys, y cynllun ardal cyntaf ar y cyd) erbyn 1 Ebrill 2018.

(2) Rhaid cyhoeddi cynlluniau ardal dilynol (neu, os yw'n gymwys, cynlluniau ardal ar y cyd) o fewn un flwyddyn ar ôl y dyddiad y mae'n ofynnol cyhoeddi'r adroddiad asesiad poblogaeth diweddaraf.

### Adolygu

**3.** Mewn achos pan fo adendwm i adroddiad asesiad poblogaeth yn cael ei ddyroddi yn unol â rheoliad 7 o'r rheoliadau asesiadau poblogaeth, rhaid i'r corff perthnasol sydd wedi llunio cynllun ardal yn dilyn yr adroddiad hwnnw (neu, os yw'n gymwys, y cyrff perthnasol sydd wedi llunio cynllun ardal ar y cyd yn dilyn yr adroddiad hwnnw)—

(a) adolygu'r cynllun ardal diweddaraf (neu'r cynllun ardal ar y cyd, os yw'n gymwys);

(b) ystyried a oes angen diwygio'r cynllun;

(c) os penderfynir diwygio'r cynllun, llunio cynllun diwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn dyroddi'r adendwm;

(d) cyhoeddi unrhyw gynllun diwygiedig.

### Copïau o'r cynlluniau

**4.** Rhaid i gorff perthnasol sydd wedi llunio cynllun ardal (neu, os yw'n gymwys, y cyrff perthnasol sydd wedi llunio cynllun ardal ar y cyd)—

(a) cynnwys copi o'r cynllun (ac, os yw'n gymwys, copi o unrhyw gynllun diwygiedig) fel rhan o'r adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol perthnasol yn unol â rheoliad 12 o'r rheoliadau trefniadau partneriaeth, a

(b) cyflwyno unrhyw gynllun neu gynllun diwygiedig o'r fath i Weinidogion Cymru.

### Ymgysylltu â dinasyddion

**5.**—(1) Wrth lunio cynllun ardal neu gynllun ardal diwygiedig (neu, os yw'n gymwys, cynllun ardal ar y cyd neu gynllun ardal ar y cyd diwygiedig), rhaid i gorff perthnasol (neu, yn achos cynllun ardal ar y cyd, y cyrff perthnasol) gymryd camau rhesymol i ymgysylltu â'r canlynol—

(a) pobl yn yr ardal y mae arnynt neu y gall fod arnynt anghenion am ofal a chymorth,

(b) pobl yn yr ardal sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blant y mae arnynt neu y gall fod arnynt anghenion am ofal a chymorth, ac

(c) gofalwyr yn yr ardal y mae arnynt neu y gall fod arnynt anghenion am gymorth.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "yr ardal" ("*the area*") yw'r ardal sydd wedi ei chwmpasu gan y cynllun ardal (neu, os yw'n gymwys, y cynllun ardal ar y cyd).

(**2**) O.S. 2015/1367 (Cy. 135).
(**3**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299).

(3) Rhaid i gorff perthnasol (neu, yn achos cynllun ardal ar y cyd, y cyrff perthnasol) sefydlu gweithdrefn ar gyfer yr ymgysylltu sy'n ofynnol gan baragraff (1).

**Ymgysylltu â sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector a chyrff cyhoeddus**

**6.**—(1) Wrth lunio cynllun ardal neu gynllun ardal diwygiedig (neu, os yw'n gymwys, cynllun ardal ar y cyd neu gynllun ardal ar y cyd diwygiedig), rhaid i gorff perthnasol (neu, yn achos cynllun ardal ar y cyd, y cyrff perthnasol) ymgysylltu ag unrhyw sefydliad sector preifat, unrhyw sefydliad trydydd sector neu unrhyw gorff cyhoeddus y mae'n credu ei fod yn ymwneud â'r ddarpariaeth o ofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, neu fod ganddo fuddiant yn y ddarpariaeth o ofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, i'r boblogaeth yn yr ardal sydd wedi ei chwmpasu gan y cynllun.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn—

ystyr "corff cyhoeddus" ("*public body*") yw corff (pa un a yw'n gorfforaethol neu'n anghorfforedig) sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus. At ddiben y diffiniad hwn, mae swyddogaeth gyhoeddus yn swyddogaeth sy'n swyddogaeth o natur gyhoeddus at ddibenion Deddf Hawliau Dynol 1998(**4**);

mae i "sefydliad trydydd sector" ("*third sector organisation*") yr un ystyr ag yn adran 16(2) o'r Ddeddf(**5**).

**Monitro a gwerthuso**

**7.** Rhaid i gorff perthnasol (neu, yn achos cynllun ardal ar y cyd, y cyrff perthnasol) gymryd camau priodol i fonitro a gwerthuso'r gwasanaethau a gweithredoedd eraill a nodir yn y cynllun ardal (neu, os yw'n gymwys, y cynllun ardal ar y cyd).

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

24 Ionawr 2017

(**4**) 1998 p. 42.
(**5**) Yn adran 16(2) o'r Ddeddf, ystyr "sefydliad trydydd sector" yw sefydliad y gallai person farnu'n rhesymol ei fod yn sefydliad sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion i'r gymdeithas.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol lunio a chyhoeddi cynllun ar ôl cynnal asesiad o anghenion o dan adran 14 o Ddeddf 2014 (a adwaenir fel "asesiad poblogaeth"). Rhaid i'r cynllun hwn (a adwaenir fel "cynllun ardal") nodi, ymhlith pethau eraill, ystod a lefel y gwasanaethau y mae'r corff yn bwriadu eu darparu, neu drefnu iddynt gael eu darparu, mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cynlluniau ardal, gan gynnwys pennu pa bryd y mae cynllun ardal i gael ei gyhoeddi (rheoliad 2), adolygu a diwygio cynlluniau ardal (rheoliad 3), personau y dylid darparu copïau o'r cynlluniau ardal iddynt (rheoliad 4), cymryd camau i ymgysylltu â dinasyddion, sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector a chyrff cyhoeddus wrth lunio cynlluniau ardal (rheoliadau 5 a 6) a monitro a gwerthuso cynlluniau ardal (rheoliad 7).

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sut y mae pob un o'r rheoliadau i fod yn gymwys os yw awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol wedi penderfynu arfer pwerau o dan adran 14A(4) neu (5) o Ddeddf 2014 i lunio a chyhoeddi cynllun ardal ar y cyd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.